

Perthyn


gan/de/by Cefyn Burgess

galeri

12.08.16 – 23.09.16

Agoriad swyddogol / sgwrs artist

Official opening / artist talk: 14.08.16 [14:00]



Noddir gan



Parc Pendine
& Business
Cymru

Arts
& Business
Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



CYMDEITHAS CYMRU-ARIANNIN



Hoffech chi gefnogi achosion a sefydliadau
Cymreig y Wladfa?

Beth am ymuno a Chymdeithas
Cymru-Ariannin?

£15 i unigolyn

£25 i gwpl

Cysylltwch â'r ysgrifennydd:

Y Bnr Ceris Gruffudd,
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE

01970 828017

Rhoshelyg@btinternet.com



@cymru_ariannin



@Cymdeithas Cymru-Ariannin

www.cymru-ariannin.com

Cefyn Burgess

Cefais fy ngeni a'm magu ym mhentref chwareddyddol Bethesda yng ngogledd Cymru. O'r fan hyn es i brifysgol Manceinion ac ennill gradd BA (Anrh) mewn tecstilau gweêdig. Dyna fentro wedyn i'r Coleg Celf Brenhinol lle derbyniais MA mewn tecstilau.

Gadewais Lundain yn niwedd y 1980au gan ddod yn wehydd preswyl cyntaf Melin Sidan Paradise Mill ym Macclesfield. Rhoddodd hyn gyfle i mi ddatblygu fy nghasgliad gwreiddiol o sidannau main wedi eu gwehyddu â llaw. Ers hynny rwyf wedi bod yn dylunio defnyddiau patrymog gweêdig a chynnyrch o safon i'r cartref gan gynnwys carthenni Cymreig, cwiltiau, gorchuddion a chlustogau. Ymysg fy nghleientiaid mae mudiadau mawr ynghyd ag unigolion sydd wedi comisiynu dyluniadau unigryw - pob un wedi eu gwehyddu gyda ffibrau naturiol.

Rwy'n creu fy nyluniadau i weddu i unrhyw leoliad, o'r castell crandiaf i'r ystafell symlaf. Wrth ymateb i ofynion cleientiaid rwy'n tynnu ar fy nghefnidir diwylliannol gan greu dyluniad sy'n draddodiadol Gymreig ac eto'n unigryw a chyfoes. Yn fy siop stiwdio yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun mae gen i ddefnydd o bob math ar gyfer llenni a chlustogau gan gynnwys cynnyrch fel carthenni, gorchuddion a chlustogau.

Dros y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi datblygu ac ehangu fy nghasgliad. Yn fy ngweithiau newydd rwy'n defnyddio cyfuniad lliwgar o flodau a phatrymau geometrig cryf - nid annhebyg i'r rhai a welir yn aml ym Mhompeii ac Ephesus

Born and raised in the slate quarry village of Bethesda, North Wales I graduated from Manchester with a BA (hons) in woven textiles then an MA in textiles from the Royal College of Art.

Leaving London in the late 1980's I became the first weaver in residence at Paradise Mill Silk Museum in Macclesfield, this gave me the opportunity to develop my original range of fine hand woven silk fabrics. Since then I have been designing jacquard woven fabrics and quality interior products including my range of Welsh tapestry blankets, quilts, throws and cushions. My clients have included large organisations as well as individuals that have commissioned bespoke designs all woven in natural fibres.

My designs are created to suit any setting from a castle to a room and respond to the clients brief but also taking into account my own cultural background giving the designs a distinctive Welsh appeal but with a contemporary reinterpretation of the traditional. From my studio shop at Ruthin Craft Centre I also stock a variety of curtain and upholstery fabrics as well as products including blankets, throws, cushions and my new range of ceramics.

In recent years my range has developed and grown, the focus of my new collection of textiles relates to the use and combination of floral images and strong geometric pattern frequently seen in Pompeii and Ephesus which are woven in exciting vibrant colours.







Perthyn



Pobl sy'n perthyn i'w gilydd mewn dwy wlad, yn rhannu'r un gwreiddiau, hanes a diwylliant, yn rhannu tir ag eraill, ond wedi ymdoddi a phlethu dros y cant a hanner o flynyddoedd diwethaf. Yr ymdeimlad hwn o Berthyn i hunaniaethau a rennir sy'n gwneud Patagonia yn lle mor arbennig. Mae'r corff o waith hwn yn cynnwys delweddau o'r eiliadau arbennig y llwyddais i'w dal wrth ymweld â Phatagonia.

Swyn ac unigrwydd y capeli ar daith diwrnod mewn car gyda Luned Gonzalez. Croeso pobl y Mapuche i'w gweithdai gwehyddu a'r sgiliau crefft yn yr Escuela Municipal de Artesanías, ac arogl melys lanolin yn y ffatri wlan gyda Billy Hughes yn Nhrelew. Blasu Mate gyda Catrin am y tro cyntaf, a'r amser a dreuliais ar y fferm deuluol gydag Ivonne Owen. Ymweld â'r lanfa ym Madryn, a'r daith hir yn y car i Drefelin a mynyddoedd yr Andes gyda Nadine. Y Poplys a'r Helyg Wylafus yn cwmpo ar y gorwel wrth groesi'r gwastatir ac ar lannau'r dyfrffyrdd. Te a chacen ddu, a choginio cyri i 40 o bobl gydag Ana Chia yn Nhŷ Te Plas y Coed. Yr arddangosfa hyfryd yn yr hen orsaf gyda Fabio, a'r cerfwaith ar y cerrig beddi llechen yn y Gaiman. Llunio a gwnio map tapestri o'r dyffryn, a dysgu geiriau Sbaeneg yn y dosbarth gyda phlant Ysgol yr Hendre Trelew. Mae hyn oll wedi creu cwilt o brofiadau a delweddau cofiadwy.



La palabra "perthyn" en galés quiere decir "estar emparentado", "estar relacionado".

Personas de dos países que están emparentadas y comparten las mismas raíces, historia y cultura, compartiendo la tierra con otros, con quienes se han integrado y entrelazado a lo largo de los últimos ciento cincuenta años. Es esta sensación de estar emparentado con identidades que comparten, lo que hace de Patagonia un lugar tan particular. Las obras de esta muestra son imágenes de momentos especiales capturados en mi visita a Patagonia.

El encanto y la soledad de las capillas en una excursión de todo el día en el coche con Luned González. La bienvenida de los Mapuches en sus talleres de tejido, las habilidades de las artesanas de la Escuela Municipal de Artesanías, y el olor dulce de la lanolina en la barraca de lana con Billy Hughes en Trelew. Probar el mate por primera vez con Catrin, y la visita a la chacra familiar con Ivonne Owen. Recorrer el lugar del Desembarco en Puerto Madryn y un largo viaje en auto a Trevelin y la Cordillera con Nadine. Los álamos y los sauces llorones de otoño, en el horizonte cruzando la meseta y junto a los cursos de agua. Té y torta negra, y la preparación de un curry para 40 personas con Ana Chia en la casa de té Plas y Coed. Dibujar y bordar un mapa del valle en un tapiz y aprender palabras en castellano en el aula con los alumnos de Ysgol yr Hendre Trelew. Todo esto ha contribuido para crear un tapiz de imágenes y experiencias inolvidables.

The word Perthyn is the Welsh word 'to be related'.

People related to each other in two countries with shared roots, history and culture and in the land that they share with others, integrated and inter woven over the last hundred and fifty years. It is this Perthyn of shared identities that makes Patagonia such a special place.

This body of work is made of images of special moments captured on my visit to Patagonia.

The charm and loneliness of the chapels on a day trip in the car with Luned Gonzalez. The welcome of the Mapuche people to their weave workshops and the craft skills at the Escuela Municipal de Artesanías, and the sweet smell of lanolin at the wool factory with Billy Hughes in Trelew. Tasting Mate with Catrin for the first time, and time on the family farm with Ivonne Owen. A visit to the landing at Madryn and a long drive to Trevelin and the Andes with Nadine. The Poplars and the Weeping Willows in the fall on the horizon on crossing the plains, and by the waterways. Tea and black cake, and cooking curry for 40 people with Ana Chia at Y Ty Te Plas y Coed. The lovely museum in the old station with Fabio, and the carving on the Welsh slate grave stones in The Gaiman. Drawing and sewing a tapestry map of the valley and learning Spanish words in class with the children of Ysgol yr Hendre Trelew, all have created a quilt of memorable experiences and images.



Galeri Caernarfon,
Doc Victoria, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1SQ

Swyddfa Docynnau/Box Office
01286 685 222

post@galericaernarfon.com



@_Galeri_



/galericaernarfon

www.galericaernarfon.com

Cefyn Burgess
01824 704080



@cefynburgess



/CefynBurgessDesign

www.cefynburgess.co.uk

Fel rhan o'r preswylad yn Galeri,
bydd Cefyn yn cynnal gweithdai
yn Ysgol yr Hendref, Caernarfon
ac Parc Pendine: Bryn Seiont
Newydd.

As part of Cefyn's residence in
Galeri - he will be conducting
workshops at Ysgol yr Hendref,
Caernarfon and at Parc Pendine:
Bryn Seiont Newydd.



**CYNLLUN CASGLU
COLLECTORPLAN**



Mae Galeri yn rhan o'r Cynllun Casglu - gwasanaeth credyd di-log* sydd
yn rhoi cymorth i chi brynu celf a chrefft gyfoes.

Galeri is part of the Collector Plan - an interest-free* credit service to help
you buy contemporary art and craft in Wales.

*APR nodweddiadol o 0% / Typical 0% APR